**Adolygiad o dystiolaeth i lywio canllawiau Llywodraeth Cymru ar gymorth i blant a phobl ifanc drawsryweddol mewn ysgolion**

## NOD YR ASTUDIAETH

Nod yr adolygiad hwn o dystiolaeth fydd dwyn ynghyd y dystiolaeth sydd ar gael i lywio canllawiau Llywodraeth Cymru ar gymorth i blant a phobl ifanc drawsryweddol mewn ysgolion.

## CWESTIWN(YNAU) YMCHWIL

Beth yw'r anghenion llesiant a'r canlyniadau (o ddiddordeb) ar gyfer plant a phobl ifanc drawsryweddol mewn lleoliadau addysg?

Beth yw'r anghenion addysgol a'r canlyniadau (o ddiddordeb) ar gyfer plant a phobl ifanc drawsryweddol mewn lleoliadau addysg?

Pa effaith y mae dulliau ymarfer a pholisi o ran trawsnewid cymdeithasol mewn lleoliadau addysg wedi'i chael ar blant a phobl ifanc drawsryweddol o safbwynt eu llesiant a'u canlyniadau addysgol?

Beth yw'r canlyniadau addysg a llesiant i gyfoedion plant a phobl ifanc drawsryweddol yn sgil gwahanol ddulliau ymarfer a pholisi o ran hunaniaeth rhywedd a thrawsnewid yn gymdeithasol mewn lleoliadau addysg?

## CYNLLUNIO

Bydd yr adolygiad yn cael ei gynllunio yn dilyn y dull ar gyfer adolygiadau cyflym o dystiolaeth a ddatblygwyd gan Tricco et al, (2017) gyda chyfle i gynnwys llenyddiaeth lwyd berthnasol. Cynhelir yr adolygiad yn raddol gan ddechrau gyda strategaeth chwilio eang a gaiff ei hehangu gyda phob cylch o chwiliadau. Byddwn yn dilyn yr eitemau a ddewisir ar gyfer adolygiadau systematig a datganiad meta-ddadansoddiadau (PRISMA) i lywio cynllun yr adolygiad ac adrodd am y dulliau a'r canfyddiadau.

## STRATEGAETH CHWILIO A DULL

Bydd cam cyntaf y strategaeth chwilio yn eang a byddwn yn chwilio cronfeydd data cyffredinol fel Google Scholar a Web of Science. Bydd hyn yn arwain at ddewis rhestr ragarweiniol o adnoddau. Bydd y rhain yn cael eu sganio ar gyfer termau allweddol perthnasol. Bydd y termau hyn yn cael eu hychwanegu at y strategaeth chwilio ac, ar ôl cyfres o chwiliadau archwiliadol dilynol, byddwn yn datblygu'r strategaeth chwilio derfynol gan ddefnyddio PICOS. Gellir dod o hyd i'r strategaeth chwilio ragarweiniol yn

Atodiad 1.

Byddwn yn cynnal y strategaeth chwilio derfynol ar y cronfeydd data canlynol:

MEDLINE: cronfa ddata gwyddorau iechyd boblogaidd

PsycINFO: cronfa ddata seicoleg boblogaidd

IDESR: Cronfa Ddata Ryngwladol o Adolygiadau Systematig Addysg

ERIC: Canolfan Gwybodaeth Adnoddau Addysgol

ProQuest Social Science: casgliad o erthyglau o ystod eang o wyddorau cymdeithasol.

Web of Science: cronfa ddata gynhwysfawr sy'n cynnwys nifer o feysydd pwnc academaidd, gan gynnwys manylion trafodion cynhadledd.

**DEWIS DOGFENNAU**

Cesglir adroddiadau a chrynodebau a mewnbynnir teitlau i Rayyan (meddalwedd ar gyfer sgrinio tîm a dewis erthyglau). Rydym yn argymell bod dau ymchwilydd yn adolygu ac yn sgorio papurau a gesglir ar sail ansawdd y dystiolaeth a pha mor berthnasol ydyw (mae dau adolygydd yn helpu i sicrhau dibynadwyedd). Bydd papurau â sgôr uchel yn cael eu darllen yn llawn a'u blaenoriaethu i'r tîm ehangach roi sylw iddynt. Bydd y meini prawf cynnwys/eithrio sy'n arwain y broses o ddethol dogfennau yn cael eu cyd-gynllunio gyda rhanddeiliaid perthnasol ar ddechrau'r prosiect, ond gallai meini prawf cychwynnol gynnwys papurau sy'n archwilio:

- Llenyddiaeth a gyhoeddwyd yn ystod y 10 mlynedd diwethaf.
- Bydd llenyddiaeth a adolygir gan gymheiriaid yn cael blaenoriaeth, gyda chyfle i gynnwys llenyddiaeth lwyd ar ffurf adroddiadau sy'n seiliedig ar ymchwil.
- Ymchwil a gynhaliwyd mewn gwledydd incwm uchel gyda systemau addysg tebyg.
- Erthygl yn nodi bod pobl drawsryweddol yn gymuned benodol (trawsryweddol, rhywedd queer, rhywedd cyfnewidiol, rhywedd nad yw'n cydymffurfio, person o rywedd gwahanol, rhywedd-amrywiol, cwestiynu rhywedd, agender, a/neu anneuaidd).
- Llenyddiaeth yn canolbwyntio ar bobl ifanc draws a'u cyfoedion* o dan 18 oed.
- Erthygl yn cynnwys goblygiadau ar gyfer lleoliadau addysgol neu'n rhoi gwybodaeth am yr arfer o ymgysylltu â phobl ifanc drawsryweddol a'u cyfoedion mewn lleoliadau addysgol.
- Ffocws erthygl yn cynnwys o leiaf un o'r canlynol:

- Trawsnewid cymdeithasol fel y'i diffinnir gan Turban et al, (2021) 'y plentyn yn mabwysiadu [cyfuniad o] enw, rhagenwau, mynegiant rhywedd (e.e. dillad a steil gwallt), a/neu rolau rhyw sy'n cyd-fynd â'i hunaniaeth rhywedd'.
- Llesiant pobl ifanc draws a'u cyfoedion*, gan gynnwys iechyd meddwl, cymdeithasol, ymddygiadol ac emosiynol.
- Canlyniadau addysgol pobl ifanc draws a'u cyfoedion*, gan gynnwys cyrhaeddiad, cynnydd academaidd, presenoldeb.

Yn ystod camau cynnar y prosiect, byddwn yn cael sgyrsiau gyda'r rhanddeiliaid perthnasol mewn perthynas ag unrhyw gyfyngiadau y gallai fod angen eu gwneud yn seiliedig ar leoliad yr astudiaeth, dyddiad cyhoeddi neu iaith.

**Echdynnu a chyfosod data**

Rydym yn bwriadu defnyddio meddalwedd REDCap ar gyfer casglu data i drefnu'r broses adolygu. Bydd data'n cael ei gyfosod gan ddefnyddio dadansoddiad o'r fframwaith. Bydd y dadansoddiad yn canolbwyntio ar ddatblygu themâu a all ddarparu cynrychiolaeth gywir o'r data. Bydd y categorïau ar gyfer y fframwaith yn seiliedig ar y cwestiynau ymchwil sy'n llywio'r adolygiad yn ogystal â'r wybodaeth sy'n deillio o'r dogfennau.

**Asesu ansawdd**

Byddwn yn defnyddio'r Adnodd Arfarnu Dulliau Cymysg (MMAT) i asesu ansawdd yr erthyglau a gyhoeddir mewn cyfnodolion a adolygir gan gymheiriaid a rhestr wirio AACODS i asesu ansawdd llenyddiaeth lwyd. Bydd y tîm yn ystyried addasrwydd Ansawdd y Fframwaith Gwerthuso Ansoddol ar gyfer unrhyw erthyglau sy'n adrodd canfyddiadau o werthusiadau ansoddol.

**ALLBYNNAU A RAGWELIR O'R ADOLYGIAD**

Byddwn yn anelu at ddatblygu'r allbynnau canlynol:

1. Protocol ar gyfer adolygiad mewnol.
2. Adroddiad llawn o ganfyddiadau'r adolygiad o dystiolaeth, gan gynnwys tudalen gyda chrynodeb
3. Crynodeb o'r canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg

## LLENYDDIAETH


Tricco, A. C., Langlois, E., Straus, S. E., & World Health Organization. (2017). *Rapid reviews to strengthen health policy and systems: a practical guide*. Sefydliad Iechyd y Byd.

Turban, J. L., King, D., Li, J. J., & Keuroghlian, A. S. (2021). Timing of social transition for transgender and gender diverse youth, K-12 harassment, and adult mental health outcomes. *Journal of Adolescent Health*, *69*(6), 991-998.


## ATODIAD 1

**PICOS a strategaeth chwilio ragarweiniol***

| | | |
|---|---|---|
| P | Population/Poblogaeth | Plant a phobl ifanc drawsryweddol |
| I | Intervention/Ymyrraeth | Trawsnewid cymdeithasol |
| C | Comparison/Cymharu | Amherthnasol |
| O | Outcomes/Canlyniadau | Canlyniadau addysg a llesiant |
| S | Setting/Lleoliad | Ysgolion, coleg |